

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd yn Aberystwyth
ddydd Gwener, 24 Ebrill 2015
rhwng 10.00yb a 12.00yp
a rhwng 1.00yp a 2.30yp

Presennol:

Yr Athro Syr Deian Hopkin, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Hugh Thomas
Tricia Carter, Is-Lywydd	Enid Morgan	Wyn Penri Jones
Gareth Haulfryn Williams	Roy Roberts	Roy Evans
Michael Trickey	Phil Cooper	Susan Davies

Aelodau staff:

Aled Gruffydd Jones	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol
Avril Jones	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus
Pedr ap Llwyd	Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant

Erail:

Linda Tomos	CyMAL
Rebecca Johnson	CyMAL
Doug Jones	Whitley
Siân Thomas	Whitley
Annwen Isaac	Staff

Sesiwn Agored

Adran 1 Eitemau Ffurfiol

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, ac yn arbennig yr Arglwydd Aberdâr a fu dan law meddyg yn ddiweddar.

Roedd Huw Williams wedi ymddiheuro am ei absenoldeb.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Gareth Haulfryn Williams ynghynt fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Treftadaeth y Loteri gan ei fod yn cyflawni rôl ymgynghorol i'r Gronfa o bryd i'w gilydd.

Datganodd Michael Trickey ynghynt fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei fod yn briod ag aelod o Gabinet y Llywodraeth.

Datganodd Tricia Carter ynghynt fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru.

Datganodd Huw Williams ynghynt fuddiant mewn materion lle y câi'r Llyfrgell ei chynghori gan Geldards LLP.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar yr amod fod cofnod 5.2 yn cael ei aralleirio. Y geiriad cywir yw:

“Ar gais y Llywydd fe gytunodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad annibynnol allanol mewn perthynas â gweithredu polisi disgyblu'r Llyfrgell a materion eraill a arweiniodd at wrandawriad tribiwnlys cyflogaeth a benderfynodd fod dau aelod o staff wedi'u diswyddo'n annheg”. Nodwyd hefyd nad oedd Avril Jones yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd gan ei bod ar daith yn Tsieina.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i ddiwygio'r cofnod.

Adran 2 Materion 'byw' ac yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf

2.1 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cyflwynodd Avril Jones y papur a'r argymhellion yn ymwneud ag adleoli'r Comisiwn, ei staff a'i gasgliad ar gampws y Llyfrgell.

Cytunwyd, mewn egwyddor, i'r argymhelliad i roi awdurdod i reolwyr y Llyfrgell i gytuno ar Benawdau'r Telerau, ond ar yr amod:

- 2.1.1 bod y cytundeb a'r Penawdau Telerau yn cael eu cytuno'n derfynol gan y Bwrdd hwn.
- 2.1.2 bod pob gair amwys (megis “guesses”) yn cael ei ddileu'n llwyr.
- 2.1.3 nad yw unrhyw gostau amwys yn dod yn gyfrifoldeb y Llyfrgell
- 2.1.4 bod cymalau yn cael eu hychwanegu i'r perwyl y byddai'r Llyfrgell yn codi tal am unrhyw waith cadwraeth y byddai'n ei wneud ar gasgliadau'r Comisiwn
- 2.1.5 bod cymal yn cael ei ychwanegu'n dweud y byddai'r Llyfrgell yn disgwyl i'r Comisiwn weithredu ym mhopeth y gwnant yn unol â safonau proffesiynol cydnabyddedig.

Cytunwyd y byddai rheolwyr y Llyfrgell yn gallu ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd ynghylch y mater hwn petaent yn meddwl y gallai hynny hwyluso'r gwaith.

Gweithredu: Rheolwyr y Llyfrgell i fynd ati i gytuno ar Benawdau Telerau a pharatoi les. Bydd y Bwrdd yn cytuno ar y rhain yng nghyfarfod mis Mehefin.

2.2 Materion yn ymwneud â'r tân

Nodwyd mai diffyg ymateb y Diddymwr oedd yn gyfrifol am y diffyg cynnydd yn y mater hwn ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Mae rheolwyr y Llyfrgell yn cynnal trafodaeth â'r Llywodraeth ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o ddwyn achos cyfreithiol ac i ba raddau y byddai'r Llywodraeth yn cefnogi hynny'n ymarferol ac ysgwyddo unrhyw golledion ariannol pe bai'r Llyfrgell yn methu

yn ei hymdrechion.

2.3 Risgiau sy'n gysylltiedig â'r adeilad

Nododd David Michael ei fod ef mewn trafodaethau â'r Llywodraeth ar hyn o bryd o ran cyflwr yr adeilad: nid yw'r Llywodraeth, meddai, yn anymwybodol ynghylch y symiau sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni.

2.4 Penodi Ymddiriedolwr

Nododd Pedr ap Llwyd fod gwahoddiad i ddod yn aelod o'r Bwrdd wedi'i ymestyn i'r ymgeisydd a oedd ar frig y rhestr wrth gefn yn dilyn yr ymgyrch recriwtio a wnaed yn 2014. Yn anffodus, nid oedd hi mewn sefyllfa erbyn hyn i gymryd rhagor o gyfrifoldebau gan ei bod wedi ymrwymo i eraill. Felly, nid oedd dewis ond aros ychydig fisoedd nes cynnal ymgyrch recriwtio ehangach ar gyfer llenwi tri lle ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

2.5 Datganiad Llywodraethiant

Dosbarthodd Pedr ap Llwyd y drafft diweddaraf o'r Datganiad i'r Aelodau. Nodwyd y cywiriadau testunol a oedd angen eu hymgorffori.

Adran 3 Materion strategol a phrif bapurau

3.1 Ail-strwythuro – adroddiad cynnydd

Cyflwynodd Aled Gruffydd Jones yr adroddiad cynnydd a oedd wedi'i baratoi ganddo. Mewn ymateb i sylw un Aelod nododd y Prif Weithredwr fod y rheolwyr yn sensitif i deimladau'r staff hynny nad oeddent wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer diswyddo gwirfoddol.

Nodwyd bod cyfnod gwasanaeth yr Ymgynghorydd Rheoli Newid, y Dr Rhodri Clwyd Griffiths, wedi dod i ben, a diolchodd Aled Gruffydd Jones iddo am ei wasanaeth.

Gweithredu: Tim Gweithredol i ystyried cost a budd defnyddio gwasanaeth yr ymgynghorydd yn ystod y prosiect.

3.2 Adroddiad ymestyn – Merthyr Tudful 2013-2015

Roedd yr Aelodau'n falch iawn o dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. Cytunwyd na ellid gwerthuso'r cynllun hwn mewn termau ariannol yn unig, ond fe gytunwyd y byddai'n dda derbyn gwybodaeth am gyfanswm y buddsoddiad ariannol y mae'r Llyfrgell wedi'i wneud er sicrhau llwyddiant y prosiect ymestyn pwysig hwn. Yn ogystal, byddai'n dda, ymhen y rhawg, i gomisiynu gwerthusiad o'r prosiect.

Gweithredu: Aled Gruffydd Jones i baratoi dadansoddiad ariannol.

3.3 Cynllun Gweithredu

Nodwyd y Cynllun Gweithredu, sef y fersiwn terfynol a oedd wedi'i gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog erbyn diwedd Mawrth.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 31/3/2015

Cyflwynodd David Michael yr adroddiad cyllidebol a oedd wedi'i baratoi ganddo.

Mynegwyd cryn anesmwythyd ynghylch y sefyllfa ariannol a'r ffaith fod y Llyfrgell erbyn hyn yn gweithredu ar ymylon eithaf cynladwyedd cyllidebol.

Nodwyd nad oedd gan y Llyfrgell gronfa gyfalaf a chytunwyd i roi sylw brys i hyn: gallai sefydlu cronfa o'r fath, meddid, roi'r Llyfrgell mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd y gallai ddilyn adolygiadau gwariant y Llywodraeth yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth mynegwyd cryn bryder unwaith yn rhagor ynghylch cyflwr dirywiedig yr adeilad. Nododd y Dr Susan Davies fod yna ymddiriedolaethau a chronfeydd ar gael yn benodol ar gyfer adeiladau hanesyddol ac y dylai'r swyddogaeth codi arian ymchwilio ymhellach i hyn. Awgrymodd y Llywydd y gellid ystyried cynnal ymgyrch codi arian yn gysylltiedig ag anghenion yr adeilad.

Gweithredu: David Michael i roi ystyriaeth i sefydlu cynllun cyfalaf.

4.2 Codi Arian – Pennaeth Cysylltiadau Allanol

Roedd copi o ddisgrifiad swydd y Pennaeth Cysylltiadau Allanol wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. Cafwyd trafodaeth fer ar y mater ac fe gytunwyd bod angen i'r disgrifiad gynnwys targedau cyflawni clir ar gyfer deiliad y swydd a'i adran. Nid oedd chwaith y ffocws priodol yn cael ei roi i farchnata, brandio a chodi arian. Mae angen i ddeiliad y swydd ddeall yn union beth yw'r disgwyliadau ar gyfer y swydd. Yn ogystal, da o beth fyddai crybwyll yn y disgrifiad swydd swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau'r adran newydd.

Gofynnwyd i'r rheolwyr ystyried penodi arbenigwyr i gynorthwyo'r Llyfrgell i ganfod ymgeiswyr cymwys ar gyfer y swydd.

Penodwyd Phil Cooper i wasanaethau ar y panel penodi.

Gweithredu: David Michael ac Adnoddau Dynol i addasu'r disgrifiad swydd. Y Tîm Gweithredol i ystyried penodi arbenigwyr i gynorthwyo i ganfod ymgeiswyr cymwys.

Adran 5 Pecyn Gwybodaeth

5.1 Materion y Llyfrgellydd

Roedd yn dda gan Aled Gruffydd Jones adrodd i'r Llyfrgell gynnal presenoldeb am ddiwrnod yn ddiweddar mewn adeilad siop a oedd wedi cau ar stryd fawr yn Aberystwyth lle rhoddwyd cyfle i aelodau'r cyhoedd gael sganio eitemau hanesyddol o'u heiddo yn ddigidol. Roedd y diwrnod yn hynod lwyddiannus.

Da hefyd ganddo oedd gallu adrodd y dyfarnwyd grant o £255,000 i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu Gwasanaeth Llyfrgell Digidol i Gymru. Bydd y nawdd yn

galluogi'r Llyfrgell i weithio mewn partneriaeth â llyfrgelloedd eraill Cymru i ddarparu mynediad rhad ac am ddim at ystod eang o ddeunydd ar-lein gan gynnwys adnoddau hanes teulu, papurau newydd a deunyddiau cyfeiriadol cyffredinol. Bydd y bartneriaeth hefyd yn darparu mynediad ar-lein yn rhad ac am ddim at e-lyfrau ac e-gylchgronau.

5.2 Materion y Llywydd

Roedd yn drist gan Syr Deian orfod cyfeirio at farwolaeth yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd a fu'n Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd yn ŵr nodedig a bu ei gyfraniad a'i ddylanwad mewn sawl maes yn sylweddol a phellgyrhaeddol. Estynnodd ei gydymdeimlad i briod a theulu'r Athro.

Cyhoeddodd Syr Deian ei fwriad i sefyll i lawr fel Llywydd ar ddiwedd cyfnod cyntaf ei lywyddiaeth yn Nhachwedd 2015 a hynny meddai am resymau cwbl ymarferol. Teimlai fod y pellter rhwng y Llyfrgell a'i gartref yn ei gwneud hi'n anodd iddo gyflawni dyletswyddau'r swydd yn y ffordd y byddai ef yn dymuno ei gwneud.

Adran 6 UFA

Dim